# CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor a gynhaliwyd yn Venue Cymru, Llandudno ddydd Gwener 3 Gorffennaf 2009.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd) – Cyngor Sir Ddinbych**
Y Cynghorydd Graham Prees (Is-gadeirydd) – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Mike Priestley – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Nancy Matthews – Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd Neville Phillips – Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd Arwel Pierce – Cyngor Sir Gwynedd
Y Cynghorydd G. O. Parry MBE – Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd Tom Jones – Cyngor Sir Ynys Môn

**HEFYD YN BRESENNOL:**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Mr Andrew Kirkham a Ms Enid Roberts

**Cyngor Sir Ddinbych**
Mr Iwan Prys Jones

**Cyngor Sir y Fflint**
Mr Colin Everett, Mr Carl Longland, Mr Barry Davies, Mrs Kerry Feather,
Ms Louise Pedreschi a Mr Graham Connah.

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Mr Arthur Owen

**Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru**
Mr Stephen Penny

**Swyddfa Archwilio Cymru**
John Scrimgeour

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorydd J Thompson-Hill – Cyngor Sir Ddinbych a Ms Hazel Nickless (Llywodraeth Cynulliad Cymru/PUK).

Cyflwynodd y Cadeirydd Mr Stephen Penny (Cyfarwyddwr y Prosiect), ac amlinellodd Mr Penny ei brofiad blaenorol mewn llywodraeth leol ac yn y sector preifat mewn perthynas â rheoli gwastraff.

**1.(a) YMDDIHEURIADAU:**

Fel y nodwyd uchod.

**1.(b) DATGAN BUDD**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fudd gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

## 2. CYMERADWYO'R COFNODION BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2009 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 3. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyfarfod.

## 4. Y STRATEGAETH GYFATHREBU

Amlinellodd Colin Everett, Cyngor Sir y Fflint, y gwaith cychwynnol a wnaed ar y strategaeth ymgynghori ar hyd y llinellau y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Byddai gwaith cyfathrebu mewnol yn cael ei wneud â Swyddogion ac Aelodau'r pum Cyngor sy'n bartneriaid, a byddai gwaith cyfathrebu allanol yn cael ei wneud â'r cyfryngau a rhanddeiliaid. Roedd llythyr newyddion drafft wedi'i baratoi, a byddai Pennaeth Cyfathrebu'r pum Cyngor yn cytuno sut i'w ddosbarthu, yn ei lwytho ar wefannau'r Cynghorau ac yn ailddosbarthu'r llythyr newyddion cyntaf. Cyflwynwyd copi o'r llythyr newyddion drafft, a gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno sylwadau arno erbyn yr wythnos ganlynol.

**Cytunwyd i nodi'r adroddiad.**

## 5. PENODIADAU TÎM Y PROSIECT

Cyflwynodd Carl Longland, Cyngor Sir y Fflint, adroddiad ynghylch y broses recriwtio ar gyfer penodi Mr Stephen Penny'n Gyfarwyddwr y Prosiect, a chyfeiriodd at yr hysbyseb am Reolwr Prosiect Dros Dro. Roedd nifer o ymgeiswyr wedi cael eu cyfweld, a phenderfynwyd penodi Swyddog o Gyngor Sir Gwynedd ar sail contract tymor penodol o dair blynedd i ddechrau. Cyflwynodd Carl Longland adroddiad hefyd ynghylch goblygiadau'r penodiad o ran personél ac arian (goblygiadau a fyddai'n cael eu rhannu'n gyfartal rhwng pob un o'r Cynghorau) pe na byddai'r swydd yn dod yn swydd barhaol ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd, h.y. pe byddai angen diswyddo. Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cydbwyllgor i'r adroddiad llafar, ac fe'i cafwyd.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a chadarnhau penodi Swyddog Gwynedd ar sail secondiad o dair blynedd ac ar sail y telerau a amlinellwyd.**

## 6. CAFFAEL YMGYNGHORIAETH – ADRODDIAD AR GYNNYDD

### (a) Y DIWEDDARAF YNGHYLCH PENODI YMGYNGHORWYR

Dywedodd Mr Stephen Penny bod Aelodau Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru wedi cytuno i gaffael Ymgynghorwyr Cyfreithiol, Ariannol a Thechnegol ar gyfer y prosiect. Rhoddodd ei adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor ynghylch penodi Ymgynghorwyr Technegol ac Ariannol, a thynnwyd sylw'r Aelodau hefyd at y broses o benodi Ymgynghorwyr Cyfreithiol, a fyddai'n cael ei hystyried yn yr eitem nesaf ar yr agenda.

Roedd cyfweliadau wedi'u cynnal y diwrnod blaenorol i ddewis Ymgynghorwyr Ariannol, ac roedd cwmni Grant Thornton wedi'i benodi. Byddai'r cyfweliadau ar gyfer Ymgynghorwyr Technegol yn cael eu cynnal yr wythnos ganlynol, a byddai adroddiad ynghylch hynny'n cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

**Cytunwyd i nodi'r adroddiad.**

**(b) PENODI YMGYNGHORWYR CYFREITHIOL AR GYFER Y PROSIECT GWASTRAFF GWEDDILLIOL A PHROSIECT A.D. WASTE**

Cyflwynodd Stephen Penny adroddiad ynghylch canlyniad yr ymarfer caffael i gael Ymgynghorwyr Cyfreithiol ar gyfer y Prosiect Gwastraff Gweddilliol a Phrosiect A.D. Waste.

**Cytunwyd i nodi'r penderfyniad i benodi Pinsent Masons yn ymgynghorwyr i'r ddau brosiect.**

## 7. ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Cyflwynodd Stephen Penny adroddiad, ac esboniodd fod yr Achos Busnes Amlinellol yn adnodd cynllunio a rheoli a fyddai'n galluogi Bwrdd y Prosiect, y Cydbwyllgor, y pum Awdurdod sy'n ffurfio'r bartneriaeth ynghyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru i wirio bod y cynnig yn cael ei gefnogi gan achos strategol. Yn ogystal byddai'r Achos Busnes yn fodel o werth am arian, yn sicrhau hyfywedd masnachol ac yn fforddiadwy'n ariannol, a byddai'n gallu cael ei wireddu'n llwyddiannus.

Wrth ymateb i lefel y cyllid a oedd ar gael nododd Mr Penny y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru, pe byddai'n cefnogi'r Achos Busnes, yn darparu cymhorthdal refeniw o 25% ar gyfer gwerth ffïoedd tipio.

**Cytunwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad.**

## 8. ADOLYGU AMSERLEN Y PROSIECT

Cyflwynodd Mr Stephen Penny adroddiad a oedd yn tynnu sylw at rai o'r newidynnau a'r elfennau o gyd-ddibyniaeth a fyddai'n effeithio ar amserlen y prosiect. Byddai'r adroddiad hwn yn destun adolygiad pellach, a byddai'n cael ei ddiweddaru ag adroddiadau pellach unwaith y byddai'r holl Ymgynghorwyr wedi'u penodi ac yng ngoleuni rhywfaint o brofiad. Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor yn y dyfodol. Mae'n bosibl mai'r dyddiad mwyaf tebygol ar gyfer dechrau derbyn gwastraff gweddilliol fyddai mis Awst 2016 oherwydd byddai'r broses gaffael yn cymryd amser, ond pe bai cyfleuster ar gael byddai'r amserlen yn fyrrach.

Cyfeiriodd Stephen Penny at argymhellion yr adroddiad a'r ffaith y dylai'r Cydbwyllgor a Bwrdd y Prosiect awdurdodi Cyfarwyddwr y Prosiect i ddatblygu ateb dros dro ar ffurf ffrwd waith ar gyfer y Prosiect, ac adrodd yn ôl ynghylch hynny yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor a Bwrdd y Prosiect.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a'r argymhellion.**

## 9. ADRODDIAD YNGHYLCH Y GOFRESTR RISG

Cyflwynodd Mr Stephen Penny adroddiad a oedd yn tynnu sylw at rai o'r newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risg i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o risgiau a'r mesurau lliniaru a oedd ar waith. Amlinellodd ystyriaethau'r adroddiad, ac eglurodd y newidiadau a wnaed i dair risg bresennol a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

Cyfeiriodd Colin Everett at Risg T4 a'r ffaith bod oedi wrth gaffael yn arwain at gostau caffael uwch, a phwysleisiodd yr angen am swyddogaeth Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn yr Awdurdodau cyfansoddol a'r angen i ganiatáu amser i'r broses gael ei hystyried.

Awgrymodd y Cynghorydd Nancy Matthews y dylai'r eitem hon fod yn eitem uwch ar agenda cyfarfodydd yn y dyfodol o ystyried pwysigrwydd y Gofrestr Risg, a chytunwyd â hynny.

**Cytunwyd i nodi'r Gofrestr Risg sydd wedi'i diweddaru ar gyfer y prosiect.**

## 10. Y DIWEDDARAF YNGHYLCH CYNNYDD – LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU – TUAG AT DDYFODOL DIWASTRAFF – YMGYNGHORIAD AR STRATEGAETH WASTRAFF NEWYDD AR GYFER CYMRU

Cyflwynodd Colin Everett y ddogfen ymgynghori, ac er y byddai'r Cynghorau sy'n bartneriaid yn ymateb yn unigol iddi roedd angen i'r consortiwm gyflwyno ymateb ffurfiol hefyd, a gofynnodd am arweiniad gan y Cydbwyllgor.

Cafwyd trafodaeth, a chyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfodydd â Jane Davidson AC ynghylch dyfodol diwastraff. Cyfeiriodd Aelodau eraill at ddulliau o ailgylchu a'u heffaith ar dunelleddau.

**Cytunwyd y byddai Colin Everett a Stephen Penny yn paratoi drafft cyntaf o ymateb i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a fyddai'n cael ei ddosbarthu er mwyn i'r Aelodau roi eu sylwadau arno.**

## 11. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ARIAN

Cyflwynodd Mrs Kerry Feather adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch y sylfaen bresennol o ran cyllid ar gyfer y prosiect, gan gynnwys gwaith ailbroffilio grant y Gronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol a'r cynigion ar gyfer datblygu datganiad proffilio ariannol diwygiedig ar gyfer gwaith monitro a wneir gan y Bwrdd yn y dyfodol. Cyfeiriodd Mrs Feather at ystyriaethau'r adroddiad, a chyfeiriodd at y gwaith caffael gwreiddiol ar gyfer y contract Gwaredu Gwastraff Integredig a oedd wedi'i rannu'n ddwy ffrwd waith benodedig, sef Gwastraff Gweddilliol a Gwastraff Bwyd. Cafodd y costau caffael a ragwelwyd, sef £4.793 miliwn eu rhannu rhwng y ddau brosiect, a arweiniodd at gyfansymiau diwygiedig o £3.958 miliwn ar gyfer y Prosiect Gwastraff Gweddilliol a £0.835 miliwn ar gyfer y Prosiect Gwastraff Bwyd. Y canlyniad oedd i gyfraniad pob un o'r pum Awdurdod a oedd yn cymryd rhan yn y Prosiect Gwastraff Gweddilliol gael ei newid i £0.818 miliwn. Yn ogystal â'r brif ffynhonnell hon o arian, roedd Llywodraeth Cynulliad

Cymru wedi rhoi grant o hyd at uchafswm o £0.670 miliwn i bartneriaeth y prosiect, o'r Gronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol.

Roedd Tabl 1 ym mharagraff 3 yr adroddiad yn esbonio sut y byddai'r £0.670 miliwn yn cael ei rannu, ac roedd yn proffilio'r grant yn ystod blynyddoedd ariannol 2008/2009 hyd at 2010/2011. Cafwyd cytundeb ar lafar gan Colin Everett o Lywodraeth Cynulliad Cymru y gallai cyfanswm y grant gael ei ailbroffilio yn ystod cyfnod caffael y prosiect. Cyfeiriwyd at y broses gaffael ac ymwneud ag ymgynghorwyr proffesiynol arbenigol, a oedd yn mynd rhagddi'n dda erbyn hyn. Pan fyddai'r broses hon wedi'i chwblhau byddai cyfanswm costau disgwyliedig ymgynghorwyr arbenigol yn hysbys, a byddai hynny'n cynrychioli cyfran sylweddol o gyfanswm cost y prosiect. Roedd angen i waith proffilio cychwynnol mewn perthynas â chyfanswm costau'r prosiect gael ei adolygu i ystyried dileu'r elfen a oedd yn ymwneud â gwastraff bwyd. Cyfeiriodd Colin Everett at y proffil grant a fyddai'n gallu cael ei ddangos unwaith y byddai pob ymgynghorydd wedi'i benodi.

I gloi cadarnhaodd Stephen Penny ei fod wedi adolygu'r holl gyllideb, a'i bod yn ddigon i ariannu'r prosiect.

**Cytunwyd i nodi y dylid ariannu costau diwygiedig gwaith proffilio tîm y prosiect gan grant Cronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chytunwyd i nodi'r cynigion ar gyfer adolygu a diweddaru'r datganiad proffilio ariannol i'w ddefnyddio wrth fonitro a chyflwyno adroddiadau yn y dyfodol.**

## 12. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – ASTUDIAETH RHEOLI GWASTRAFF GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd Colin Everett John Scrimgeour o Swyddfa Archwilio Cymru, a gyflwynodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Cyfeiriodd at ddiben y papur materion ac astudiaeth Rheoli Gwastraff Gogledd Cymru o ran y bartneriaeth ranbarthol a materion lleol ynghylch gwastraff. Cyfeiriodd at rai o'r prif faterion a'r prif lwybrau ymholi, a chyfeiriodd yn benodol at faterion ynghylch gallu ac adnoddau ynghyd â'r ffactorau perthnasol o ran amser. Gofynnodd am ddewisiadau partneriaid unigol o ran sut y dylid adrodd ynghylch yr astudiaeth/cyflwyno'r astudiaeth i bob Cyngor sy'n bartner, a barn y mwyafrif oedd y byddent yn ffafrio cyflwyniad i bob Cyngor llawn.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a dewisiadau partneriaid unigol o ran y modd y dylid adrodd ynghylch yr astudiaeth i gyfarfodydd eu Cyngor.**

## 13. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

Cytunwyd y byddai cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd y Prosiect | – | 3 Medi am 2pm yng Ngwynedd. Y lleoliad i'w gadarnhau. |
| Y Cydbwyllgor | – | 17 Medi am 2pm yng Ngwynedd. Y lleoliad i'w gadarnhau. |

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd y Prosiect | – | 27 Tachwedd am 2pm yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug |
| Y Cydbwyllgor | – | 9 Rhagfyr am 2pm yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug |